

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	25 / 01 / 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Teitl	Rôl y Cefnogwr Pobl Ifanc

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Testun yma Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenodi Cefnogwr Pobl Ifanc.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ceisio penodi Cefnogwr Pobl Ifanc.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi aelod i fod yn Gefnogwr Pobl Ifanc.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 7 Rhagfyr 2021 penderfynodd y Cyngor greu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc yn unol â'r disgrifiad rôl sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

4.2. Ceisiwyd enwebiadau gan y grwpiau gwleidyddol er mwyn i'r Cyngor allu ethol aelod i'w benodi'n Cefnogwr Pobl Ifanc. Darperir manylion yr enwebiadau hynny yn y cyfarfod.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Byddai'r rôl Cefnogwr Pobl Ifanc yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth gorfforaethol bod Sir Ddinbych yn rhywle y mae pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio a chanddynt y sgiliau angenrheidiol i wneud hynny

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Fe allai costau teithio achlysurol godi os bydd aelod gefnogwr yn mynychu cyfarfodydd neu ddiwyddiadau sy'n berthnasol i'w rôl fel cefnogwr. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol a glustnodir ar gyfer teithio gan aelodau

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghori wedi bod gyda'r Pwyllgor Craffu. Cyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn uniongyrchol gan y Cyngor. Argymhellodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod y rôl yn cael ei chreu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn cadarnhau y bydd unrhyw gostau bach ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol a glustnodwyd ar gyfer teithio gan aelodau Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaethau ariannol ehangach

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd dryswch neu ddyblygu'n digwydd rhwng rôl Aelod Gefnogwr a rôl yr Aelod Arweiniol perthnasol os nad y Cefnogwr yw'r Aelod Arweiniol hefyd.

Bydd yn bosibl lliniaru hyn drwy fod â disgrifiad rôl clir a pherthynas weithio dda rhwng yr Aelod Arweiniol a'r Cefnogwr.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972